

Pecyn Aseadau Effaith

I'w ddarllen ar y cyd â
Dogfen Ymgynghori Ysgol Heol Goffa



Cynnwys

1. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned	3
2. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	5
1. Cyflwyniad a Phwrpas	5
2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth	6
3. Cyd-destun: Ysgol Heol Goffa a'r Cynnig	6
4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Tabl 1)	6
5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)	10
6. Yr Effaith ar y Gymuned	12
7. Risgiau a Dulliau Lliniaru	13
8. Monitro a Gwerthuso	13
9. Casgliad a Chrynodeb	14
3. Asesiad Effaith Integredig	15

Bydd pob asesiad effaith yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn unol â hynny ar adegau perthnasol yn ystod y broses statudol, sef ar ôl y cyfnod ymgynghori ffurfiol ac ar ôl y cyfnod gwrthwynebu (os yw'n berthnasol).

1. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

- **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

Nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu gan nad oes gan Ysgol Heol Goffa ddalgylch dynodedig.

- **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

Nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu gan nad oes gan Ysgol Heol Goffa ddalgylch dynodedig.

- **Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill a ddarperir yn yr ysgol e.e. clwb ieuencid/cylch chwarae**

Mae'r ysgol yn cynnal clybiau yn ystod gwyliau'r haf a gwyliau'r Pasg ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuencid. Mae Tŷ Hafan yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd a chlybiau gyda rhieni a phlant ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau.

- **Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol**

Ar hyn o bryd nid oes clybiau ar ôl ysgol, ond bwriad yr ysgol yw dechrau clwb ar ôl i'r ysgol symud i'w hadeilad ysgol mwy, newydd a fyddai'n darparu mwy o gyfleoedd. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnal gofalwyr pontio a sioeau teithiol eraill, digwyddiadau canu Goldies Cymru, sesiynau synhwyraidd cyn ysgol a gweithdai i rieni a gofalwyr ymhlith pethau eraill.

- **Yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac mae angen cludiant arbenigol, cymorth o ran symudedd neu gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn ar lawer ohonynt. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cerdded nac yn beicio i'r ysgol, ac felly ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar eu gallu i deithio'n ddiogel.

- **Gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafndiaeth gyhoeddus**

Nid yw safle presennol Ysgol Heol Goffa yn cael ei wasanaethu'n uniongyrchol gan drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r safleoedd bysiau agosaf yn Heol Felinfoel a Rhodfa'r Gorfforaeth, sydd ill dau tua chwarter milltir o'r ysgol. Mae'r safle hefyd yn eithaf pell o gysylltiadau trafndiaeth ehangach, sef tua 1.5 milltir o Orsaf Reilffordd Llanelli a 0.8 milltir o orsaf fysiau'r dref.

Mewn cyferbyniad, byddai'r lleoliad newydd arfaethedig yn uniongyrchol ar lwybr bysiau, gan wella hygyrchedd i staff ac ymwelwyr yn sylweddol. Mae'r safle yn agos iawn at Orsaf Reilffordd Llanelli, ac mae'r orsaf fysiau o fewn pellter cerdded rhesymol o hyd, yn debyg i safle presennol yr ysgol. Hefyd, mae cyfnewidfa fysiau newydd wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr orsaf reilffordd a disgwylir i honno wella cysylltedd ymhellach a chynyddu nifer y bysiau sy'n mynd a dod. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi nodi ei bwriad i wella gwasanaethau bysiau lleol fel rhan o'i phroses newid barhaus i rwydwaith masnachfreinio bysiau, a ddylai sicrhau manteision hirdymor pellach.

Effaith arfaethedig adeilad newydd yr ysgol ar y gymuned

Bydd safle newydd arfaethedig Ysgol Heol Goffa yn sicrhau llawer mwy o fanteision i'r gymuned o gymharu â'r ysgol bresennol. Nid yw'r ysgol bresennol yn agos at lwybrau trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol, ac mae'r safleoedd bysiau agosaf a'r cysylltiadau rheilffordd yn eithaf pell i ffwrdd, gan gyfyngu ar hygyrchedd i deuluoedd, ymwelwyr a phartneriaid cymunedol. Mewn cyferbyniad, bydd y safle newydd yn uniongyrchol ar lwybr bysiau ac yn agos at Orsaf Reilffordd Llanelli, gan wneud yr ysgol yn fwy hygyrch i staff, ymwelwyr a defnydd cymunedol ehangach.

Hefyd, mae symud i gyfleuster modern, pwrpasol yn golygu bod modd parhau ac ehangu'r gweithgareddau cymunedol sydd eisoes yn cael eu cynnal gan yr ysgol fel clybiau gwyliau, gweithdai, sesiynau synhwyrdd a digwyddiadau a ddarperir gyda sefydliadau partner yn ogystal â darparu manau mwy hyblyg o safon uwch ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a gwasanaethau cymorth yn y dyfodol. Yn gyffredinol, bydd yr ysgol newydd yn cryfhau perthynas yr ysgol â'r gymuned, yn gwella hygyrchedd, ac yn gwella cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol cynhwysol.

2. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg



Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Adeilad newydd arfaethedig Ysgol Heol Goffa, Llanelli

Paratowyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynhelir yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safonau'r Gymraeg (gan gynnwys Safonau Llundain Polisi 88–93), a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), sy'n cysylltu cynigion trefniadaeth ysgolion statudol yn benodol ag Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a'r broses ymgynghori o ran y safonau llunio polisi.

Mae'r cynnig hwn yn arbennig o bwysig yn ardaloedd trefol Llanelli sy'n ieithyddol fregus, lle mae trosglwyddo'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned o dan bwysau parhaus. Felly, mae'r adeilad newydd wedi'i fframio fel ymyrraeth ieithyddol fwriadol sydd wedi'i chynllunio i ehangu cyfleoedd hygyrch, strwythuredig i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na gwelliant seilwaith niwtral.

1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn gwerthuso effaith debygol yr adeilad newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Heol Goffa, Llanelli (ysgol arbennig a gynhelir ar gyfer 3–19 oed) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n defnyddio canfyddiadau arolygiad Estyn (Tachwedd 2025), data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg, a thystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

Mae'r cynnig hwn yn dangos sylw dyladwy clir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru drwy asesu'n fanwl yr effeithiau posibl ar ddefnyddio'r Gymraeg a nodi cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd yn nodi mesurau lliniaru priodol, gan sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy gydol proses weithredu'r adeilad newydd.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg drwy sicrhau y bydd cyfathrebu â'r cyhoedd, arwyddion, dogfennau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn cynnal ac yn datblygu gallu gweithredol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg a hygyrch ar draws lleoliad newydd yr ysgol.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n sail i'r adeilad newydd yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ystyried manteision ieithyddol hirdymor, atal dirywiad pellach o ran defnyddio'r Gymraeg, integreiddio llesiant diwylliannol o fewn cynllunio addysgol, ac ymgysylltu â disgyblion, teuluoedd, staff a phartneriaid cymunedol drwy gydol y camau ymgynghori a gweithredu.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys: (a) Adroddiad arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Heol Goffa (arolygiad Tachwedd 2025, cyhoeddwyd Ionawr 2026); (b) Gwybodaeth gan wahanol dimau Cyngor Sir Caerfyrddin (c) Bwletinau a setiau data Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, StatsCymru/NOMIS); (d) gwybodaeth gan Ysgol Heol Goffa gan gynnwys statws Cymraeg Campus y Siarter Iaith a chyfoethogi; a (d) pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion, Safonau'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg).

Gan mai cynnig ysgol arbennig yw hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyladwy i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth asesu'r cynnig hwn, gan sicrhau bod camau i hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau i fod yn gynhwysol i ddysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth. Bydd y dull dwyieithog a gefnogir gan symbolau, gan gynnwys Cyfathrebu Amgen ac Atgyfnerthol lle bo angen, yn helpu i gynnal mynediad iaith teg ac yn cefnogi cyfle cyfartal i bob disgybl.

3. Cyd-destun: Ysgol Heol Goffa a'r Cynnig

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig a gynhelir yn Llanelli sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan lawer o'r dysgwyr hyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sylweddol. Mae gan yr ysgol 132 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae ganddi berthnasoedd cryf, darpariaeth eang o ran Cwricwlwm i Gymru, a chyfoethogi helaeth, gan nodi nad yw'r adeilad presennol bellach yn addas i'r diben mewn sawl maes allweddol. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ar gyfer ysgol newydd â 150 o leoedd (yn amodol ar gymeradwyaeth).

4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn benodol y Safonau Lluio Polisi (Safonau 88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a'r Safonau Gweithredu (Safonau 127–135).

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Dulliau Lliniaru / Mesurau Posibl i wella'r effaith gadarnhaol	Effaith derfynol (yn dilyn y dulliau lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchion, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)	Mae defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, o ddydd i ddydd, wedi'i sefydlu drwy arwyddion, arferion dyddiol a chyfarchion dwyieithog. At ddibenion	Cadarnhaol	Sicrhau bod arwyddion ystafelloedd dosbarth a sgriniau digidol newydd yn ddwyieithog bob	Cadarnhaol - gwell cysondeb ac amgylchedd dwyieithog

	<p>hygyrchedd, mae'r ysgol yn defnyddio symbolau a systemau atgyfnerthol i ategu'r Gymraeg/Saesneg (gan gynnwys dulliau Signalong/"Singalong", symbolau gweledol ac arwyddion y corff) i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan mewn ethos dwyieithog.</p>		<p>amser ac yn cael eu cefnogi gan symbolau, gan ddarparu arwyddion Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd; adnewyddu fframwaith Cymraeg anffurfiol ysgol gyfan (cyfarchion, symudiadau, amseroedd chwarae) ar gyfer y safle newydd; cynnwys llais disgyblion drwy'r Criw Cymraeg i fonitro defnydd anffurfiol.</p>	<p>mwy amlwg mewn adeilad sy'n addas i'r diben.</p>
<p>Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg (cwricwlwm, staffio, monitro)</p>	<p>Mae'r staff yn cyfathrebu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, gan ddefnyddio Cymraeg achlysurol i gefnogi cyfarwyddiadau a dysgu. Mae'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno drwy'r Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, sydd wedi'i sefydlu ar draws arferion, caneuon a gweddïau. Mae'r hyn sy'n cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol yn aml yn ddwyieithog. Mae 32 aelod o staff, gan gynnwys 9 athro/athrawes sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg, sy'n cyfrannu at ymarfer. Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol yn blaenoriaethu sgiliau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys y Gymraeg, ac mae systemau monitro ar waith.</p>	<p>Niwtral i Gadarnhaol</p>	<p>Mapio Cymraeg achlysurol ar draws y cyfnodau; ymestyn amcanion llafaredd Cymru i raglenni synhwyraidd/therapi; ehangu dysgu proffesiynol staff o ran y Gymraeg yng nghyd-destunau ADY; ffurfioli olrhain cynnydd y Gymraeg yn fewnol mewn Cynlluniau Datblygu Unigol a phroffiliau dosbarth; cynyddu cyfran y cyfathrebiadau allanol dwyieithog.</p>	<p>Cadarnhaol - cryfhau gallu a systemau drwy ddysgu proffesiynol a monitro a dargedir.</p>
<p>Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog)</p>	<p>Mae'r disgyblion yn elwa ar gyd-destunau go iawn yn Llangrannog a Bluestone i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd go iawn. Mae digwyddiadau diwylliannol blynyddol yn cynnwys dathliadau Eisteddfod, Dydd Miwsig Cymru, gweithgareddau'r</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Defnyddio lle ychwanegol i gynnal clybiau dwyieithog ar ôl ysgol (e.e. Clwb Criw Cymraeg, cerddoriaeth, stori synhwyraidd, codio gyda gorchmynion Cymraeg); cydweithio â'r Urdd a'r Fenter</p>	<p>Cadarnhaol – cynyddu cyfoethogi dwyieithog o ran amllder ac amrywiaeth.</p>

	Urdd, Dydd Gŵyl Dewi, Goldies Cymru, a mentrau ysgol fel "Y Canwr Cudd" a "Pwy wyt ti?". Mae clybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynllunio ar ôl i'r adeilad newydd agor, gan ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.		laith ar gyfer staffio a chludiant; trefnu sesiynau Cymraeg i deuluoedd bob tymor.	
Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach)	Mae'r ysgol yn cynnal sioeau teithiol, boreau coffi a sesiynau galw heibio, gan alluogi teuluoedd i ymgysylltu â gwasanaethau sydd ar gael yn aml yn ddwyieithog. Mae'r adeilad newydd yn bwriadu agor manau ar gyfer cyrsiau, hyfforddiant a chyfarfodydd cymunedol, a bydd caffi cymunedol ac eco-siop yn rhyngweithio â'r cyhoedd drwy'r Gymraeg.	Cadarnhaol	Cyhoeddi polisi defnydd cymunedol dwyieithog; cydweithio â darparwyr cyfrwng Cymraeg lleol (Menter Cwm Gwendraeth Elli, Coleg Sir Gâr – dysgu cymunedol) i gyflwyno sesiynau yn ddwyieithog; hyrwyddo sesiynau sgysiau Cymraeg gyda gwirfoddolwyr dan arweiniad y Criw Cymraeg a/neu rieni/gwarcheidwaid	Cadarnhaol - cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg gan deuluoedd a rhwng y cenedlaethau.
Cyfleoedd a fydd yn cael eu creu gan yr ysgol newydd (mannau, arwyddion, digwyddiadau, dysgu fel teulu)	Bydd yr adeilad newydd yn safoni arwyddion dwyieithog corfforaethol ac yn creu manau addysgu/ategol ychwanegol sy'n addas ar gyfer clybiau, digwyddiadau a dysgu fel teulu. Mae agosrwydd at y traeth, caffi a'r Ganolfan lechyd a Llesiant (o fewn pellter cerdded) yn ychwanegu cyd-destunau bywyd go iawn i ddisgyblion ymarfer Cymraeg yn y gymuned; Bydd caffi cymunedol ac eco-siop ar y safle yn ymestyn y cysylltiadau hyn.	Cadarnhaol	Mabwysiadu cynllun argraffu amgylcheddol dwyieithog gan ddarparu arwyddion Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd; dylunio manau ar gyfer sesiynau Cymraeg cymunedol; cynnwys sbardunau Cymraeg mewn menter (bwydlenni, labeli, cyfarchion); nodi digwyddiadau cymunedol yn y calendr yn ddwyieithog. <i>(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61-63)</i>	Cadarnhaol - gwella defnydd go iawn o'r Gymraeg a'i gwneud yn fwy amlwg.
Effaith gyffredinol symud/adeilad newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg	Disgwylir y bydd symud yr ysgol yn cynyddu cyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg	Cadarnhaol	Risg: gallai dibyniaeth ar Gymraeg achlysurol gyfyngu ar gynnydd.	Cadarnhaol - ar yr amod bod targedau a

	drwy well cyfleusterau, cyfoethogi ehangach a chysylltiadau cryfach â'r gymuned. Bydd cydestunau go iawn (traeth, caffi, canolfan iechyd a llesiant) a mentrau ar y safle yn rhoi cyfleoedd pwrpasol dro ar ôl tro i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd.		Dull Lliniaru: gosod targedau mesuradwy ar gyfer dod i gysylltiad â llafaredd Cymraeg ar draws y cyfnodau; cynnwys sbardunau Cymraeg wrth ryngweithio â mentrau/cwsmeriaid; monitro'r defnydd o sesiynau Cymraeg gan y gymuned ac aelodaeth o'r Urdd.	phrosesau monitro yn cael eu rhoi ar waith.
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol o ran y Gymraeg (yr Urdd, Mentrau Iaith, eisteddfodau, treftadaeth)	Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, prosiectau treftadaeth Cymru, Cymraeg Campus y Siarter Iaith, a digwyddiadau chwaraeon/diwylliannol lleol. Mae'r ysgol yn cydweithio ar ymweliadau preswyl/dydd a chystadlaethau gydag ysgolion lleol ac ysgolion arbennig ledled Cymru, gan atgyfnerthu hunaniaeth a llafaredd.	Cadarnhaol	Cynyddu cymorthdaliadau aelodaeth o'r Urdd; ystyried creu bwsariaeth cludiant; cyd-gynllunio categorïau hygyrch ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth; ymgorffori treftadaeth leol, straeon synhwyraidd dwyieithog ac allgymorth amgueddfeydd yn y cwricwlwm.	Cadarnhaol - ehangu cyrhaeddiad a chynhwysiant.
Tystiolaeth ychwanegol (Ysgol/Awdurdod Lleol/Estyn)	Wedi cyflawni Gwobr Efydd Cymraeg Campus y Siarter Iaith; wedi cydysgrifennu cân Gymraeg gyda Mei Gwynedd; wedi cefnogi ymchwil Llywodraeth Cymru ar ddarparu addysg Gymraeg mewn ysgolion arbennig. Mae Estyn (Tachwedd 2025) yn canmol rolau arwain (y Criw Cymraeg, y cyngor ysgol, y pwyllgor eco), cysylltiadau cryf â'r gymuned a digwyddiadau dwyieithog rheolaidd (Canu a Gwenu, adrodd storïau, darllen), sy'n meithrin cyfathrebu, hyder a hunaniaeth ddiwylliannol.	Cadarnhaol	Parhau i ddatblygu a sefydlu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol fel rhan o wella'r ysgol. Ystyried cynnal portffolio tystiolaeth (fideos, lluniau, cynllunio); ehangu cynnydd Cymraeg Campus y Siarter Iaith tuag at Arian a thu hwnt.	Cadarnhaol - llwyfan cryf ar gyfer gwella pellach.
Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg	Mae'r cynnig yn cefnogi Cynllun Strategol y	Cadarnhaol	Sicrhau ymgynghoriad	Cadarnhaol

<p>mewn Addysg a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru</p>	<p>Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, yn enwedig Deilliant 5 (cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol), drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnydd yn y Gymraeg mewn carfan ysgol arbennig fawr a thrwy well defnydd cymunedol.</p> <p>Bydd yr ymgynghoriad a'r dogfennau yn ddwyieithog a byddant yn rhoi sylw dyladwy i'r effaith ar y Gymraeg yn unol â'r Cod a Mesur y Gymraeg. <i>(Safonau Llundio Polisi 88-93)</i></p>		<p>ddwyieithog sy'n cydymffurfio â'r Cod; cynnwys diweddariad am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ym mhob cam; monitro mynediad cyfartal at weithgareddau Cymraeg ar gyfer pob proffil ADY.</p>	
<p>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>Mae'r gofyniad hwn yn cydfynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n mynnu bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau ar gyfer y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal.</p>	<p>Bydd yr holl ddeunyddiau, arwyddion ac ymgysylltu ar gyfer y cyhoedd yn ymwneud â'r prosiect yn ddwyieithog; bydd y gwasanaethau a ddarperir a defnydd y gymuned o'r cyfleuster yn adlewyrchu Safonau'r Gymraeg Sir Gaerfyrddin. <i>(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61-63)</i></p> <p>Bydd polisïau gweithredol (derbyniadau, cyfathrebu, cwynion) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mabwysiadu templedi corfforaethol dwyieithog; archwilio amseroedd ymateb yn y ddwy iaith; ystyried darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn y dderbynfa ac ar y ffôn.</p> <p>Sicrhau bod arwyddion, polisïau a dogfennau Cymraeg ar gael ar y safle newydd. <i>(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61-63)</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llundio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredu (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Ydy – wedi cynyddu drwy well cyfleusterau, deunydd argraffu amgylcheddol dwyieithog, caffi/eco-siop gymunedol, a mwy o gyfoethogi mewn partneriaeth â'r Urdd/Menter Iaith.	Mae Estyn yn nodi ystod cyfoethogi a chysylltiadau cymunedol; mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag opsiynau ar gyfer adeiladau newydd ar ôl adolygiad 2024–25; mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod angen cryfhau'r defnydd ymhlith plant/pobl ifanc, gan gefnogi ffocws ar ddefnydd anffurfiol a dysgu fel teulu.	Cadarnhaol – defnydd amlach a mwy dilys; mae'r dulliau lliniaru yn sicrhau cynhwysiant i ddysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth.
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Ydy – pob ymgynghoriad a dogfen yn ddwyieithog; arwyddion corfforaethol a rhyngwynebau cwsmeriaid i fod yn ddwyieithog; model staffio i gynnwys sicrhau bod modd darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn y dderbynfa ac wrth gyfathrebu.	Safonau'r Gymraeg; ymarfer ymgynghori dwyieithog; digwyddiadau a chyfryngau cymdeithasol dwyieithog presennol yr ysgol. <i>(Safonau Llunio Polisi 88-93)</i>	Cadarnhaol.
Safonau Llunio Polisi – sylw dyladwy i'r Gymraeg	Ydy – cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ei gynnal yn ystod y cam cynnig a bydd yn cael ei ddiweddarau ym mhob cam.	Yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg; cyd-destun Estyn; opsiynau/penderfyniadau Cabinet y cyngor; tystiolaeth o'r Cyfrifiad ar gyfer tueddiadau ac anghenion lleol.	Cadarnhaol – yn seiliedig ar dystiolaeth gyda dulliau lliniaru penodol.
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau - gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg	Ydy – gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a gwybodaeth gyhoeddadedig yn Gymraeg ac yn Saesneg; brandio dwyieithog	Safonau a thempledi corfforaethol y Cyngor; allbynnau dwyieithog presennol yr ysgol.	Cadarnhaol.

	cyson ar draws y safle.		
Safonau Gweithredu – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff	Ydy – dysgu profesiynol wedi'i dargedu a recriwtio i gryfhau gallu o ran y Gymraeg; hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a systemau mewnol lle bo'n ymarferol.	Data gweithlu (32 aelod o staff gan gynnwys 9 athro/athrawes sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg); cynllun hyfforddi. (<i>Safonau Gweithredu 127–135</i>)	Cadarnhaol – twf graddol mewn gallu mewnol.

6. Yr Effaith ar y Gymuned

Bydd y lleoliad newydd a'r dyluniad yn sefydlu cysylltiadau rheolaidd, ystyrion â'r gymuned leol yn Llanelli. O fewn pellter cerdded i amwynderau, gall dysgwyr ymarfer Cymraeg bob dydd mewn senarios â chymorth (siopa, cyfarchion, gofyn am wasanaethau). Bydd darpariaeth gymunedol ar y safle (caffi/eco-siop) yn cynnig rhyngweithiadau cyfrwng Cymraeg i'r ysgol, a bydd sioeau teithiol, boreau coffi i'r teulu a sesiynau galw heibio yn ymestyn ymgysylltu dwyieithog. Mae gan y trefniadau hyn ymrwymadau y gellir eu mesur (e.e., sesiynau teuluol dwyieithog bob tymor, targedau o ran aelodaeth o'r Urdd, a sbardunau Cymraeg seiliedig ar fenter).

Proffil ieithyddol Llanelli a'r ardaloedd cyfagos

Mae Llanelli yn rhan o dirwedd ieithyddol ehangach sydd wedi gweld gostyngiad mesuradwy mewn gallu o ran y Gymraeg. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai yn Sir Gaerfyrddin y cafwyd y gostyngiad mwyaf o ran pwynt canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gan ostwng o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021, ac roedd gostyngiadau sylweddol ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r tueddiadau hyn yn arbennig o amlwg yn y cymunedau mwy trefol o amgylch Llanelli, lle mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn cartrefi a lleoliadau cymunedol o dan fwy o bwysau. Mae'r sefyllfa fregus hon yn cadarnhau pwysigrwydd sicrhau bod yr ysgol newydd yn creu profiadau Cymraeg cryf, gweladwy a hygyrch i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

O ystyried sefyllfa ieithyddol fregus cymunedau trefol Llanelli, mae gan Ysgol Heol Goffa rôl bwysig wrth feithrin agweddau cadarnhaol at y Gymraeg a chefnogi profiadau dwyieithog hygyrch i ddisgyblion ag anghenion cyfathrebu cymhleth. Mae'r adeilad newydd yn gyfle i ychwanegu at y rôl hon drwy arwyddion dwyieithog gwell, Cymraeg a gefnogir gan symbolau, gweithgareddau ar gyfer y gymuned a chyfoethogi strwythuredig sy'n atgyfnerthu presenoldeb y Gymraeg mewn cyd-destunau bob dydd.

Mae Glan-y-môr, Tyisha a Bigyn, sef rhai o wardiau trefol Llanelli, yn rhan o rai o ardaloedd mwyaf bregus Sir Gaerfyrddin o safbwynt ieithyddol. Er bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cadw cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, mae dadansoddiad diweddar yn dangos cryn amrywiad ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, ac mae gan Ardaloedd Cynnyrch

Ehangach Haen Is trefol fel arfer gyfraddau sylweddol is o allu o ran y Gymraeg na rhannau gwledig o'r sir. Mae Compendiwm Prosiect BRO ynghylch Cyfrifiad 2021 yn tynnu sylw at wahaniaethau sylweddol yn y nifer sy'n medru'r Gymraeg rhwng Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Gaerfyrddin, gan ddangos patrwm clir lle mae hyfedredd yn y Gymraeg yn gostwng mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwys neu dan bwysau economaidd-gymdeithasol - patrymau sy'n gyson â phroffil ieithyddol wardiau Glan-y-môr, Tyisha a Bigyn. (*Compendiwm Prosiect BRO ynghylch Cyfrifiad 2021 – amrywiad Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Gaerfyrddin*).

Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos bod amgylchedd ieithyddol Glan-y-môr, Tyisha a Bigyn yn golygu bod angen ymyrraeth weithredol i gynnal a chryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cadarnhau pwysigrwydd sefydlu arferion dwyieithog cryf yn yr ysgol arbennig newydd, gan gefnogi teuluoedd a disgyblion mewn ardal lle mae'r Gymraeg dan bwysau cynyddol.

7. Risgiau a Dulliau Lliniaru

Risg	Dull Lliniaru
Mae Cymraeg achlysurol yn parhau i fod yn ad hoc ac yn anghyson ar draws dosbarthiadau.	Mapio cysylltiad a phennu isafswm o ran y cyfleoedd rhyngweithio dyddiol yn y Gymraeg yn ôl cyfnod; monitro drwy deithiau dysgu a'r Criw Cymraeg.
Hygyrchedd – mae angen Cyfathrebu Amgen ac Atgyfnerthol/cymorth symbolau ar rai dysgwyr.	Parhau ag arwyddion dwyieithog a gefnogir gan symbolau ac integreiddio Cyfathrebu Amgen ac Atgyfnerthol mewn sbardunau Cymraeg.
Nid yw'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio digon gan y gymuned.	Cyd-ddylunio gyda theuluoedd, amseroedd hyblyg, bwrsariaethau cludiant posibl, a chyd-ddarparu gyda'r Urdd/Menter Iaith.
Gallu staff o ran y Gymraeg.	Dysgu proffesiynol Cymraeg, recriwtio, a gwasanaeth dwyieithog posibl ar gyfer y dderbynfa/mannau cyhoeddus.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys: (1) cyfran y postiadau allanol sy'n ddwyieithog; (2) presenoldeb mewn sesiynau teuluol dwyieithog; (3) nifer y digwyddiadau cymunedol Cymraeg fesul blwyddyn academaidd; (4) canran y staff sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol Cymraeg; (5) targedau llafaredd Cymraeg dysgwyr wedi'u cofnodi mewn Cynlluniau Datblygu Unigol; ac (6) aelodaeth o'r Urdd/lefelau cyfranogiad. Bydd data yn cael ei adolygu bob tymor a'i adrodd trwy drefniadau llywodraethu.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro effaith y cynnig ar y Gymraeg drwy gydol y broses weithredu, gan sicrhau bod tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, adborth gan y gymuned a chyfrifoldebau statudol yn cael eu hadlewyrchu'n llawn wrth wneud penderfyniadau yn barhaus.

Dulliau gwella parhaus:

Mae'r cynnig hwn yn dangos sylw dyladwy clir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro deilliannau o ran y Gymraeg drwy gydol y broses dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu fel bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

9. Casgliad a Chrynodeb

Yn gyffredinol, aseswyd y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Drwy'r dulliau lliniaru a'r gwaith monitro uchod, bydd adeilad newydd Ysgol Heol Goffa yn cryfhau'r defnydd anffurfiol a ffurfiol o'r Gymraeg, yn dyfnhau cysylltiadau cymunedol ac yn cyd-fynd â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a Safonau'r Gymraeg.

Bydd y cynnig yn cael ei lywio drwy ymgysylltu'n barhaus â rhieni/gwarcheidwaid, staff, sefydliadau cymunedol, Menter Iaith, yr Urdd a rhanddeiliaid ehangach, gan sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried yn ystyrlon a'i hymgorffori yn y dyluniad terfynol a threfniadau gweithredol yr ysgol newydd.

Bydd gwaith monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Gweithredu (127–135), y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu bodloni.

Heb yr adeilad newydd, byddai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn parhau i fod yn brin oherwydd cyfyngiadau'r safle presennol. Mae'r cynnig hwn felly yn ymgais i gynyddu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardal lle mae pwysau ieithyddol cydnabyddedig, ac nid yw'n ymwneud â chydymffurfiaeth statudol yn unig.

Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod camau priodol drwy gydol y broses, gan ymgorffori unrhyw adborth pellach sy'n dod i law gan rhanddeiliaid ac ymgynghoreion.

3. Aseiad Effaith Integredig

Aseiad Effaith Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

MANYLION Y CYNNIG			
Gwasanaeth ac Adran:	Cwblhawyd gan (swyddog arweiniol):	Dyddiad yr aseiad cychwynnol:	12/01/26
Addysg a Gwasanaethau Plant	Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg	Fersiwn rhif:	1
		Dyddiad Adolygu:	Ar ôl y cyfnod ymgynghori ffurfiol
Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?	Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150		
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?	Rhieni a disgyblion Ysgol Heol Goffa Staff Ysgol Heol Goffa Darpar ddisgyblion Ysgol Heol Goffa Ysgolion lleol eraill â darpariaeth ADY		

<p>Wrth i chi gwblhau'r asesiad, gofynnir i chi nodi'r holl ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ddata a dogfennau eraill ac ati a'u cwblhau trwy hyperddolenni</p>		
<p>DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM FFORDD O WEITHIO <i>(gelwir hyn hefyd yn egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynnydd yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)</i></p>		
<p>Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '... bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'</p>		
Ffyrdd o Weithio	Sut mae'r cynnydd yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
<p>Tymor Hir</p> <p>Cydbwysio anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Mwy o leoedd ar gyfer yr ysgol arbennig newydd gan gynnig mwy o leoedd i blant 3-19 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol i ateb y galw yn awr ac yn y dyfodol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru - Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru - Canllawiau Adeiladu (Mawrth 2025)</p> <p>Tueddiadau demograffig lleol</p>
<p>Atal</p> <p>Atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Mwy o leoedd disgyblion i ateb y galw. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i ganiatáu ehangu yn y dyfodol pe bai angen. Lleihau'r angen i orfod anfon disgyblion allan o'r sir ar gyfer eu haddysg.</p>	<p>Nifer disgyblion a gyhoeddwyd gan CYBLD</p> <p>Tystiolaeth o'r drafodaeth â'r ysgol a'r Corff Llywodraethu</p>
<p>Integreiddio</p> <p>Cydnabod perthnasoedd a rhyng-ddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.</p>	<p>Yn cyd-fynd â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i blant ag anghenion cymhleth. Yn gwella cydlyniant cymunedol drwy rannu defnydd o'r cyfleusterau.</p>	<p>Rhaglen drawsnewid ADY Rhaglen amlinellol strategol Cyngor Sir Caerfyrddin</p>
<p>Cydweithio</p>	<p>Mae'r cynnydd hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd â swyddogion allweddol i sicrhau ei fod yn cwrdd â</p>	<p>Cynnal cyfarfodydd gyda'r ysgol, y corff llywodraethu, staff a rhieni.</p>

<p>Wedi'i gyflawni trwy weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol eraill (sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir</p>	<p>dyheadau'r Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd â'r hyn a gymeradwywyd yn ddiweddar gan Gabinet y Cyngor Sir. Ymgysylltu ag arbenigwyr ADY, yr ysgol ac aelodau o'r corff llywodraethu.</p>	
<p>Cynnwys</p> <p>Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt</p>	<p>Bydd ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).</p> <p>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid penodol sy'n berthnasol i'r cynnig.</p> <p>Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n ceisio barn y rhai sydd â diddordeb yn y penderfyniadau allai effeithio arnynt.</p>	<p>Dogfen Ymgynghori</p> <p>Dogfen Ymgynghori i Ddisgyblion</p>

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau cadarnhaol?

<p>1. Tymor Hir</p>	<p>Sicrhau bod dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys hyblygrwydd ar gyfer ehangu yn y dyfodol i ddiwallu anghenion datblygol.</p> <p>Sefydlu arferion adeiladu cynaliadwy i leihau'r effaith amgylcheddol tymor hir a chostau gweithredol.</p>
<p>2. Atal</p>	<p>Dylunio'r ysgol i ddarparu ar gyfer y twf disgwylidig yn nifer y disgyblion, gan leihau'r risg o broblemau yn ymwneud â nifer y lleoedd yn y dyfodol.</p> <p>Cynnwys manau therapiwtig a synhwyrdd i gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal anghenion cymhleth rhag gwaethygu.</p> <p>Lleihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir drwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac ar gael yn lleol.</p>

3. Integreiddio	Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r ysgol yn cyd-fynd â nodau strategol ehangach fel y rhaglen drawsnewid ADY ac amcanion llesiant lleol. Hyrwyddo defnydd cymunedol o gyfleusterau i gryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r preswylwyr/cymuned leol. Cysylltu gwasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu cymorth cofleidiol i ddisgyblion a theuluoedd.
4. Cydweithio	Sicrhau y cyfathrebir â'r Cabinet ac aelodau etholedig i sicrhau cefnogaeth wleidyddol ac atebolrwydd.
5. Cynnwys	Gweithredu'r ymgynghoriad fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) i sicrhau y cesglir barn rhai â diddordeb mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt, gan gynnwys y ddogfen ymgynghori i ddisgyblion.

CYDRADDOLDEBAU (mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau)

Nodweddion Gwarchoddedig	A ydy'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
Oedran	Ydy	Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/anawsterau dysgu difrifol. Mae'r dyluniad a'r ddarpariaeth yn briodol i'r oedran ac yn gynhwysol.
Anabledd	Ydy	Mae'r cynnig yn rhoi cymorth uniongyrchol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol. Bydd yr adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cynnwys manau therapiwtig.
Ailbennu rhywedd	Nac ydy	Dim effaith benodol wedi'i nodi. Bydd yr ysgol yn dilyn polisiau cynhwysol.

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Nac ydy	Dim effaith benodol wedi'i nodi.
Hil	Dim effaith benodol wedi'i nodi.	Bydd yr ysgol yn dilyn arferion a pholisïau cynhwysol.
Crefydd/Cred	Dim effaith benodol wedi'i nodi.	Bydd yr ysgol yn parchu credoau amrywiol ac yn dilyn polisïau cynhwysol.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Nac ydy	Ddim yn berthnasol
Cyfeiriadedd Rhywiol	Nac ydy	Dim effaith benodol wedi'i nodi.
Rhyw	Nac ydy	Nid yw'r cynnig yn gwahaniaethu ar sail rhyw.

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau cadarnhaol?

1. Oedran	Sicrhau bod y dyluniad wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion datblygiadol plant a phobl ifanc 3–19 oed. Cynnwys manau dysgu, chwarae a therapiwtig sy'n briodol i'r oedran.
2. Anabled	Ymgorffori nodweddion dylunio cwbl hygyrch (e.e. teclynnau codi, coridorau llydan, ystafelloedd synhwyrdd). Darparu hyfforddiant staff arbenigol a sicrhau bod darpariaeth therapiwtig wedi'i sefydlu.
3. Ailbennu rhywedd	Mabwysiadu polisïau cynhwysol a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Creu amgylchedd diogel a chefnogol i bob disgybl waeth beth fo'i hunaniaeth rhywedd.

4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion, cynnal cydraddoldeb mewn arferion cyflogaeth.
5. Hil	Hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth drwy gwricwlwm ac ethos yr ysgol. Sicrhau arferion recriwtio ac ymgysylltu cynhwysol.
6. Crefydd/Cred	Darparu manau tawel ar gyfer myfyrio neu weddio. Parchu arferion deietegol a chrefyddol mewn polisïau ysgol ac arlwyo.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Sicrhau bod polisïau staff yn cefnogi absenoldeb mamolaeth a hyblygrwydd o ran dychwelyd i'r gwaith.
8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Meithrin diwylliant ysgol cynhwysol drwy bolisïau gwrth-fwlio a hyfforddiant staff.
9. Rhyw	Sicrhau mynediad cyfartal i'r holl gyfleusterau a chyfleoedd heb ystyried rhyw. Monitro ar gyfer gwahaniaethau ar sail rhywedd o ran cyrhaeddiad neu gyfranogiad.

Y GYMRAEG (mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw dyladwy i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)

Gofyniad	A ydy'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	A ydy'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol?
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Ydy – wedi cynyddu drwy well cyfleusterau, deunydd argraffu amgylcheddol dwyieithog, caffi/eco-siop gymunedol, a mwy o gyfoethogi mewn partneriaeth â'r Urdd/Menter Iaith.	Mae Estyn yn nodi ystod cyfoethogi a chysylltiadau cymunedol; mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag opsiynau ar gyfer adeiladau newydd ar ôl adolygiad 2024–25; mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod angen cryfhau'r defnydd ymhlith plant/pobl ifanc, gan gefnogi	Cadarnhaol – defnydd amlach a mwy dilyn; mae'r dulliau lliniaru yn sicrhau cynhwysiant i ddysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth.

		ffocws ar ddefnydd anffurfiol a dysgu fel teulu.	
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Ydy – pob ymgynghoriad a dogfen yn ddwyieithog; arwyddion corfforaethol a rhyngwynebau cwsmeriaid i fod yn ddwyieithog; model staffio i gynnwys sicrhau bod modd darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn y dderbynfa ac wrth gyfathrebu.	<p>Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod pob dysgwr yn dod yn hyderus ddwyieithog, hyd yn oed mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, drwy ymgorffori dysgu Cymraeg o 3 oed ymlaen.</p> <p>Safonau'r Gymraeg; ymarfer ymgynghori dwyieithog; digwyddiadau a chyfryngau cymdeithasol dwyieithog presennol yr ysgol. (<i>Safonau Llunio Polisi 88-93</i>)</p>	<p>Cadarnhaol: Yn hyrwyddo dwyieithrwydd trwy arwyddion, cyfathrebu, a gweithgareddau diwylliannol.</p> <p>Yn sicrhau mynediad cynhwysol at adnoddau cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi staff lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mabwysiadu templedi corfforaethol dwyieithog; archwilio amseroedd ymateb yn y ddwy iaith; ystyried darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn y dderbynfa ac ar y ffôn.</p> <p>Sicrhau bod arwyddion, polisïau a dogfennau Cymraeg ar gael ar y safle newydd. (<i>Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61-63</i>)</p>

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanateision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)

Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	<p>Mae data o CYBLD a thueddiadau demograffig lleol yn dangos angen cynyddol am ddarpariaeth ADY hygyrch o safon uchel yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae lleoliadau y tu allan i'r sir yn gostus a gallant amharu ar sefydlogrwydd teuluoedd, gan gael effaith anghymesur ar deuluoedd incwm isel.</p> <p>Mae adeilad presennol yr ysgol yn cyfyngu ar nifer y lleoedd a hygyrchedd, a allai gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion o gefndiroedd dan anfantais gael mynediad at addysg briodol yn lleol.</p>
A ydych wedi ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	Bydd ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) .
A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?	<p>Ydym. Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau pellteroedd teithio i rai teuluoedd • Creu cyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau • Cefnogi cyflogaeth a gwasanaeth lleol <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i integreiddio â gwasanaethau lleol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gan wella cydlyniant cymunedol.</p>

Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	Effeithiau cadarnhaol: <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o fynediad at addysg arbenigol i blant ag ADY yn yr ardal • Llai o ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir • Gwell deilliannau addysgol trwy gyfleusterau modern, cynhwysol • Gwell cymorth i deuluoedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod yr ysgol yn cynnwys gwasanaethau cofleidiol (e.e. iechyd, therapi, cymorth i deuluoedd) i fynd i'r afael â rhwystrau ehangach i ddysgu. • Darparu opsiynau cludiant hygyrch i ddisgyblion o aelwydydd incwm isel. • Sefydlu arferion recriwtio cynhwysol i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol. • Cynnig gweithgareddau ymgysylltu ac adborth i sicrhau bod teuluoedd o gefndiroedd dan anfantais yn rhan o gymuned yr ysgol.
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a beth yw'r effeithiau pellach o ran croestoriadedd?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ag anabledau a'r rhai o oedran ysgol, a allai hefyd brofi anfantais economaidd-gymdeithasol. • Mae'r manteision croestoriadol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Gwell mynediad at addysg i blant sy'n anabl ac o aelwydydd incwm isel • Dyluniad cynhwysol a pholisïau sy'n cefnogi hunaniaethau hil, crefyddol a rhywedd amrywiol • Gwell cymorth i deuluoedd sydd â nodweddion lluosog o ran bod yn agored i niwed (e.e. rhieni sengl, gofalwyr, cefndiroedd incwm isel).

HAWLIAU'R PLENTYN (Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc).		
Gofyniad	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau cadarnhaol?
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	<p>Bydd – bydd y cynnig yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar blant a phobl ifanc 3–19 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol. Bydd yn gwella mynediad at addysg arbenigol, yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a therapiwtig, ac yn cefnogi eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol.</p>	<p>Pam mae gofal ac addysg yn ystod plentyndod cynnar yn bwysig UNESCO</p> <p>Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)</p> <p>Mae gan adeilad presennol yr ysgol gyfyngiadau o ran nifer y lleoedd a hygyrchedd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ag ADY gael mynediad at addysg briodol yn lleol.</p> <p>Os caiff ei gymeradwyo, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2026), ymgynghorir â disgyblion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd cyfle i ddisgyblion (Cyngor Ysgol man lleiaf) fod yn rhan o'r broses ymgynghori yn ystod sesiwn gan yr Ymgynghorydd Cymorth Addysg.</p> <p>Yn ogystal, bydd copi o'r Ddogfen Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc yn cael ei roi i bob disgybl.</p> <p>Dylunio er budd pennaf y plentyn: Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i ddiwallu anghenion datblygiadol, emosiynol ac addysgol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mannau dysgu a chwarae sy'n briodol i'r oedran • Ystafelloedd therapiwtig a synhwyraidd

			<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau hygyrch sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac urddas <p>Diogelu a Chynhwysiant: Bydd staff yn cael eu hyfforddi i ddiogelu a chefnogi plant ag anghenion amrywiol, gan sicrhau amgylchedd diogel a meithringar.</p> <p>Cymorth cofleidiol: Bydd integreiddio â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cymorth cyfannol i ddisgyblion a'u teuluoedd, gan fynd i'r afael â rhwystrau ehangach i ddysgu a llesiant.</p>
<p>A ydy'r fenter wedi'i dylunio/chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?</p>	<p>Ydy – mae'r cynnig i adeiladu ysgol arbennig newydd â 150 o leoedd ar gyfer Ysgol Heol Goffa wedi'i gynllunio'n benodol er budd pennaf plant a phobl ifanc 3-19 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau dysgu difrifol. Mae'r fenter yn blaenoriaethu eu hanghenion</p>	<p>Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys ystafelloedd synhwyrdd, mannau therapiwtig, a chyfleusterau hygyrch wedi'u teilwra i gyfnodau datblygiadol plant a phobl ifanc.</p> <p>Bydd disgyblion yn rhan o'r broses ymgynghori, gan</p>	<p>Sicrhau bod yr ysgol newydd yn cynnwys mannau dysgu a chwarae sy'n briodol i'r oedran, ystafelloedd therapiwtig a synhwyrdd, a chyfleusterau hygyrch sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac urddas.</p> <p>Mynd ati i gynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori, gan gynnwys drwy'r Cyngor Ysgol a'r Ddogfen bwrpasol i</p>

	addysgol, emosiynol a datblygiadol.	gynnwys drwy'r Cyngor Ysgol a Dogfen bwrpasol i Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc.	Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).
<p>Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "<i>geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol</i>". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.</p> <p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hól troed carbon hwythau.</p>			
Gofyniad			
A ydy'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau'r sir?		Ydy, gallai'r cynnig effeithio ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau. Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn ei holl swyddogaethau, gan gynnwys prosiectau datblygu ysgolion. Disgwylir i'r holl gynigion cynllunio ddangos Budd Net i Fioamrywiaeth, gan gynnwys defnyddio seilwaith gwyrdd a strategaethau lliniaru megis creu cynefinoedd, plannu planhigion brodorol, a choridorau ecolegol.	
A ydy'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030?		Gallai'r cynnig gyfrannu'n gadarnhaol at ymrwymiad Cyngor Sir Caerfyrddin i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030, ar yr amod bod yr ysgol newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu yn unol â'r safonau a'r canllawiau cynaliadwyedd cyfredol. Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yn rhaid i bob adeilad ysgol newydd fod yn adeilad carbon sero net o ran ei weithrediad o 2022 ymlaen.	

<p>A ydy'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?</p>	<p>Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar wydnwch Sir Gaerfyrddin o ran newid yn yr hinsawdd, ar yr amod bod yr ysgol newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu gan ystyried egwyddorion addasu i'r hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn mynnu bod adeiladau ysgol newydd yn adeiladau carbon sero net o ran eu gweithrediad, sydd yn ei hanfod yn cefnogi gwytnwch hinsawdd trwy leihau allyriadau a thrwy seilwaith ynni-ffeithlon.</p>
<p><i>DIOGELU DATA (Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partiön i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).</i></p>	
<p>A ydy'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae modd ei adnabod)?</p>	<p>Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o ddata Gofynnir am gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post os yw ymgynghoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.</p>
<p>A ydy'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?</p>	<p>Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd Nac ydy</p>
<p>A ydy'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?</p>	<p>Os ydy, rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu Nac ydy</p>
<p>Os ydych wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r ystyriaethau hyn, siaradwch â'r Swyddog Diogelu Data i gychwyn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a/neu drafod a oes angen Cytundeb Prosesu Data.</p>	

GOBLYGIADAU (Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)	
	A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg	Os caiff ei gymeradwyo, cychwynnir ar yr ymgynghori'n unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol.
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol	Bydd goblygiadau refeniw yn cael sylw yng Nghynllun Ariannu Teg Rheoli Ysgolion yn Lleol. O ganlyniad i'r cynllun i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Heol Goffa, bydd yr ysgol yn symud i adeilad newydd â 150 o leoedd.
3. Staffio	Rhoddir sylw i'r goblygiadau o ran staffio yn unol â Gweithdrefnau a Pholisi y Cyngor Sir.
4. Marchnata a'r Cyfryngau	Os caiff ei gymeradwyo, bydd angen marchnata'r ymgynghoriad trwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr holl randdeiliaid gofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn cael eu hysbysu yn unol â hynny.
5. Troseddau ac Anhrefn	Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau.

Diolch i chi am gwblhau'r asesiad hwn. Bydd yr holl asesiadau'n cael eu cyhoeddi fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor er mwyn helpu Cynghorwyr i ystyried yn ofalus unrhyw effeithiau posibl gaiff y cynigion a gweithredu yn eu cylch.